Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Tachwedd 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Tachwedd 2024


**Awdur:**
Adam Cooke

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ........ 1**

Sut i ddefnyddio'r Crynodeb hwn o'r Bil ........ 1

**2. Cipolwg ar y Bil ........ 2**

**3. Crynodeb o'r darpariaethau ........ 2**

Rhan 1 - Y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru ........ 2

Diffinio offerynnau statudol Cymreig ........ 2

Gweithdrefnau craffu'r Senedd ar gyfer is-ddeddfwriaeth ........ 3

Gorchmynion Traffig Ffyrdd ........ 4

Rhan 2 - Cyhoeddi etc. ddeddfwriaeth Cymru ........ 4

Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru ........ 4

Cadw a chyhoeddi Deddfau Senedd Cymru ........ 5

Cadw a chyhoeddi offerynnau statudol Cymreig ........ 5

Cyhoeddi is-ddeddfwriaeth nas gwneir drwy offeryn statudol Cymreig ........ 6

Darpariaethau ychwanegol ........ 7

Rhan 3 - Diddymiadau i ddeddfwriaeth Cymru ........ 7

Diddymiadau a diwygiadau ........ 7

Rhan 4 - Darpariaethau cyffredinol ........ 8

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y ***Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru)*** ar 21 Hydref 2024.

Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni ('y Cwnsler Cyffredinol'), yw'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil.

Mae **Memorandwm Esboniadol** y Bil yn datgan mai ei ddiben yw:

a. tynnu ynghyd a ffurfioli:
   i. y trefniadau gweithdrefnol ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru, a
   ii. y gofynion ar gyfer cyhoeddi Deddfau Senedd Cymru ac offerynnau statudol Cymreig, ac is-ddeddfwriaeth arall nas gwneir drwy offeryn statudol.

b. gwella hygyrchedd cyfraith Cymru drwy:
   i. diddymu, diwygio a datgymhwyso fel arall o ran Cymru ddarpariaethau a deddfiadau nad ydynt o ddefnyddioldeb ymarferol neu o fudd mwyach; a
   ii. gwneud mân ddiwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

Cyhoeddwyd **datganiad ysgrifenedig** ar y Bil ar 21 Hydref a chyflwynwyd **datganiad llafar** gan y Cwnsler Cyffredinol ar 22 Hydref.

Mae ***Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019*** ('Deddf 2019') yn gosod dyletswyddau ar y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn **datgan bod** y Bil yn rhan o:

> … raglen ehangach Llywodraeth Cymru i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch ac i egluro a symleiddio gweithrediad deddfwriaeth Cymru.

Mae'r Bil ar ei daith drwy broses ddeddfwriaethol y Senedd ar hyn o bryd. Ymddangosodd y Cwnsler Cyffredinol gerbron y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 4 Tachwedd 2024. Gwnaeth y Pwyllgor **lansio ymgynghoriad** ar y Bil a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth ychwanegol dros y misoedd nesaf.

### Sut i ddefnyddio'r Crynodeb hwn o'r Bil

Nid yw'r ddogfen hon yn grynodeb cynhwysfawr o bob agwedd ar y Bil. Mae i'w defnyddio'n electronig ac i gyfeirio at ragor o fanylion.

Yn yr adran crynodeb o'r darpariaethau, mae testun rhif yr adran (e.e. adran 1) yn cysylltu â'r adran berthnasol o'r Bil.

# 2. Cipolwg ar y Bil

Wyth adran sydd i'r Bil wedi'u trefnu'n bedair Rhan, ac yn dair Atodlen:

- Rhan 1 - Y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru
- Rhan 2 - Cyhoeddi etc. ddeddfwriaeth Cymru
- Rhan 3 - Diddymiadau i ddeddfwriaeth Cymru
- Rhan 4 - Darpariaethau cyffredinol
- Mae Atodlen 1 yn rhestru'r deddfiadau amrywiol sydd i'w diddymu neu eu diwygio.
- Mae Atodlen 2 yn gwneud mân ddiwygiadau i Ddeddf 2019 o ganlyniad i **adolygiad o'r Ddeddf** a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru y llynedd a newidiadau eraill a gynigir gan y Bil hwn.
- Mae Atodlen 3 yn gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n codi o'r Bil.

Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn **rhestru'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth** sydd yn y Bil ac sydd i'w mewnosod yn Neddf 2019, ac mae'n nodi'r gweithdrefnau craffu cyfatebol.

# 3. Crynodeb o'r darpariaethau

## Rhan 1 - Y weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth Cymru

Mae **adran 1** yn mewnosod Rhan newydd 2A (sy'n cynnwys adrannau 37A i 37H) a thair Atodlen newydd (1A, 1B ac 1C) yn Neddf 2019.

### Diffinio offerynnau statudol Cymreig

Mae adran newydd 37A yn cynnwys y diffiniad o "offeryn statudol Cymreig".

Mae adran newydd 37B yn diffinio'r term "awdurdod cyfrifol" mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys mewn "offeryn statudol Cymreig". Mae hefyd yn egluro sut y mae penderfyniad i'w wneud gan yr awdurdod cyfrifol i ddosbarthu offeryn statudol Cymreig yn "offeryn lleol".

**Beth yw offerynnau lleol?**

Mae offerynnau lleol "yn tueddu i fod yn gymwys i ardal benodol neu unigolion neu bersonau penodol yn unig" ac nid oes angen eu gosod gerbron y Senedd.

## Gweithdrefnau craffu'r Senedd ar gyfer is-ddeddfwriaeth

Mae adrannau newydd 37C i 37H yn darparu ar gyfer codeiddio gweithdrefnau craffu'r Senedd ar gyfer offerynnau statudol Cymreig. Y gweithdrefnau newydd yw:

- "**Gweithdrefn gymeradwyo'r Senedd**". Mae'r weithdrefn hon yn golygu na ellir gwneud is-ddeddfwriaeth oni bai bod drafft o offeryn statudol Cymreig wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi wedyn. Byddai hon yn disodli'r weithdrefn "gadarnhaol ddrafft" bresennol.
- "**Gweithdrefn gadarnhau'r Senedd**". Mae'r broses hon yn golygu, er mwyn i is-ddeddfwriaeth barhau i gael effaith neu ddod i rym, fod rhaid ei gosod gerbron y Senedd cyn gynted â phosibl a bod rhaid i'r Senedd gadarnhau ei bod yn ei chymeradwyo drwy benderfyniad. Bydd y deddfiad yn nodi'r cyfnod erbyn pryd y mae rhaid i'r Senedd gadarnhau'r is-ddeddfwriaeth. Byddai hon yn disodli'r weithdrefn "gadarnhaol gwnaed" bresennol.
- "**Gweithdrefn annilysu'r Senedd**". Mae'r broses hon yn golygu y gall y Senedd benderfynu cyn diwedd 40 niwrnod (gan ddechrau â'r dyddiad y gosodwyd yr is-ddeddfwriaeth) i annilysu'r ddeddfwriaeth. Byddai hon yn disodli'r weithdrefn "negyddol" (neu "negyddol gwnaed") bresennol.
- Sefyllfa ddiofyn ar gyfer yr hyn sydd i ddigwydd mewn perthynas â'r holl is-ddeddfwriaeth a wneir drwy offeryn statudol Cymreig nad yw'n ddarostyngedig i un o'r gweithdrefnau a nodir uchod. Mewn achosion o'r fath, rhaid ei gosod gerbron y Senedd.

Mae adran newydd 37G yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfuno mewn un offeryn statudol Cymreig is-ddeddfwriaeth a wneir gan awdurdod cyfrifol drwy ddefnyddio pwerau gwahanol y mae gweithdrefnau gwahanol yn y Senedd yn gymwys iddynt. Mae'n sicrhau bod yr offeryn yn ddarostyngedig i'r gweithdrefnau llymaf a fyddai fel arall yn gymwys. Er enghraifft, pe bai un pŵer yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu'r Senedd, ac un arall yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd, byddai'r offeryn cyfun yn ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd gan ei fod yn caniatáu mwy o graffu gan y Senedd.

Ceir gwybodaeth am y gweithdrefnau presennol ar **wefan y Senedd**.

Mae adran newydd 37H yn cyflwyno Atodlenni 1A, 1B ac 1C.

Mae'r Atodlenni yn cymhwyso darpariaethau Rhan newydd 2A i is-ddeddfwriaeth Cymru a wnaed yn flaenorol, i offerynnau ar y cyd neu offerynnau cyfansawdd ac i Orchmynion yn y Cyfrin Gyngor.

**Beth yw offerynnau statudol cyfansawdd neu offerynnau statudol ar y cyd?**

Mae rhai deddfiadau yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth ar y cyd â pherson arall, er enghraifft Ysgrifennydd Gwladol. Gelwir yr offeryn sy'n deillio o hyn yn "offeryn ar y cyd".

Weithiau gall Gweinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol ddewis arfer eu pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn un offeryn, gyda phob un yn ei gwneud mewn perthynas â'u meysydd cyfrifoldeb a'u pwerau eu hunain yn unig. Gelwir hwn yn "offeryn cyfansawdd".

**Beth yw Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor?**

Y Brenin sy'n gwneud **Gorchmynion yn y Cyfrin Gyngor** gan weithredu yn unol â chyngor y Cyfrin Gyngor. Gwneir rhai gan ddefnyddio pwerau a roddir gan Ddeddf, a gwneir eraill yn rhinwedd yr uchelfraint frenhinol.

Gellir eu defnyddio at **amrywiaeth o ddibenion**, gan gynnwys trosglwyddo cyfrifoldebau rhwng adrannau'r llywodraeth (neu o Weinidogion y DU i Weinidogion datganoledig) neu pan fo'n effeithio ar y cyfansoddiad.

### Gorchmynion Traffig Ffyrdd

Mae **adran 2** yn darparu nad yw'n ofynnol gwneud gorchmynion traffig ffyrdd dros dro drwy offeryn statudol Cymreig (neu offeryn statudol) mwyach. Nid yw hyn yn effeithio ar bwerau Gweinidogion Cymru i wneud y gorchmynion hyn a byddant yn parhau i gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar **ei gwefan**.

## Rhan 2 - Cyhoeddi etc. ddeddfwriaeth Cymru

Mae **adran 3** o'r Bil yn mewnosod Rhan newydd 2B (sy'n cynnwys adrannau 37I i 37Z2) yn Neddf 2019.

### Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru

Mae adran newydd 37I yn nodi bod Rhan newydd 2B o Ddeddf 2019 yn rhoi swyddogaethau i Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin mewn cysylltiad â Deddfau Senedd Cymru, offerynnau statudol Cymreig a dogfennau cysylltiedig. Wrth arfer y swyddogaethau hyn, mae Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin i'w alw'n "Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru".

**Beth yw Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin?**

Mae Argraffydd Deddfau Seneddol y Brenin, Argraffydd Llywodraeth Gogledd Iwerddon ac Argraffydd y Brenin ar gyfer yr Alban yn gyfrifol am gyhoeddi deddfwriaeth y DU.

Nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn sôn am rôl Argraffydd y Brenin o ran cyhoeddi deddfwriaeth Cymru, ond yn ymarferol mae hyn hefyd yn cael ei wneud gan ac ar ran Argraffydd y Brenin.

## Cadw a chyhoeddi Deddfau Senedd Cymru

Mae adran newydd 37J yn nodi gofynion rhifo Deddfau Senedd Cymru.

Mae adran newydd 37K yn ymwneud â'r print swyddogol (y copi o Ddeddf y mae Clerc Senedd Cymru yn ysgrifennu dyddiad Cydsyniad Brenhinol, blwyddyn galendr, rhagddodiad a rhif) Deddf arno.

Mae adran newydd 37L yn gosod rhwymedigaeth ar Lyfrgell Genedlaethol Cymru i sicrhau bod print swyddogol Deddf yn cael ei gadw ac ar gael i'r cyhoedd ei weld ar bob adeg resymol.

Mae adran newydd 37M yn nodi gofynion Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru mewn perthynas â chopïau ardystiedig o Ddeddfau a dogfennau cysylltiedig.

## Cadw a chyhoeddi offerynnau statudol Cymreig

Mae adran newydd 37N yn darparu bod rhaid anfon fersiynau swyddogol a chopïau ardystiedig o offerynnau statudol Cymreig at Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru ac i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, ac mae'n nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei hanfon ynghyd â'r offeryn a sut y mae rhaid ei hanfon.

Mae adran newydd 37O yn ei gwneud yn ofynnol i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ddal a darparu'r copïau ardystiedig o offerynnau statudol Cymreig y mae'n eu cael gan yr awdurdod cyfrifol.

Mae adran newydd 37P yn nodi'r ffordd y mae rhaid i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru rifo offerynnau statudol Cymreig.

Mae adran newydd 37Q yn ei gwneud yn ofynnol i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi offerynnau statudol Cymreig a dogfennau sy'n gysylltiedig ag offeryn ar-lein ac mae'n ymdrin â'r materion y mae rhaid iddo eu cynnwys wrth gyhoeddi.

**Fformat offerynnau statudol**

Er nad yw wedi'i gynnwys fel rhan o ddarpariaethau'r Bil, **cadarnhaodd Llywodraeth Cymru** ym Memorandwm Esboniadol y Bil ei bod, **yn unol ag ymrwymiadau blaenorol**, yn bwriadu symud i ffwrdd o fformat yr offeryn dwy golofn, gan gyhoeddi offerynnau statudol Cymreig o bosibl yn yr un fformat un golofn â Deddfau'r Senedd, gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Mae adran newydd 37R yn nodi'r gofynion ar gyfer hysbysu Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru pan fydd offeryn statudol Cymreig sy'n ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhau'r Senedd wedi'i gadarnhau neu'n peidio â chael effaith.

Mae adran newydd 37S yn darparu amddiffyniad i achos am drosedd o dorri offeryn statudol Cymreig os nad yw'r offeryn hwnnw wedi'i gyhoeddi gan Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru ar yr adeg pan gyflawnwyd y drosedd.

Mae adran newydd 37T yn darparu, os yw'r awdurdod cyfrifol yn gofyn i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi offeryn statudol Cymreig drafft, fod rhaid i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi hwn ar-lein.

Mae adran newydd 37U yn ei gwneud yn ofynnol i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi ar-lein dablau'n dangos yr effeithiau y mae Deddfau Senedd Cymru neu offerynnau statudol Cymreig yn eu cael ar ddeddfiadau.

Mae adran newydd 37V yn ei gwneud yn ofynnol i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gyhoeddi ar-lein ddeddfwriaeth Cymru fel y'i diwygiwyd gan unrhyw ddeddfiad arall.

Mae adran newydd 37W yn ei gwneud yn ofynnol i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru gynnal a chadw a chyhoeddi cofnod ar-lein o wybodaeth sylfaenol ynghylch pob Deddf gan Senedd Cymru a phob offeryn statudol Cymreig, gan gynnwys y dyddiad y cafodd ei gyhoeddi.

Mae adran newydd 37Y yn darparu i Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru argraffu a gwerthu deddfwriaeth Cymru a dogfennau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth Cymru.

## Cyhoeddi is-ddeddfwriaeth nas gwneir drwy offeryn statudol Cymreig

Mae adran newydd 37Z yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i rifo, dosbarthu a chyhoeddi ar-lein yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir ganddynt pan nad yw ar ffurf offeryn statudol Cymreig.

### Darpariaethau ychwanegol

Mae adran newydd 37Z1 yn sicrhau y caniateir cyfeirio at offerynnau statudol Cymreig yn ôl eu henw o'r eiliad y'u gwneir ac mae'n darparu y caniateir cyfeirio at offerynnau statudol Cymreig yn ôl eu rhagddodiad, eu blwyddyn a'u rhif.

Mae adran newydd 37Z2 yn darparu y caiff Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru ddirprwyo unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a roddir iddo gan Ran 2B (wrth barhau i fod yn gyfrifol am eu cyflawni), ac mae'n galluogi Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru i gontractio allan y gwaith o argraffu a gwerthu offerynnau statudol Cymreig.

## Rhan 3 - Diddymiadau i ddeddfwriaeth Cymru

Mae **adran 4** o'r Bil yn cyflwyno Atodlen 1.

### Diddymiadau a diwygiadau

Mae **Atodlen 1** yn darparu ar gyfer diddymu a diwygio deddfiadau amrywiol. Mae llawer o'r darpariaethau sydd i'w dileu yn ymwneud â'r system gynllunio, neu'n gysylltiedig â'r system gynllunio.

Mae Memorandwm Esboniadol y Bil yn **darparu rhestr** o feysydd y gellir eu diddymu neu eu diwygio. O ran cynllunio, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Byrddau Datblygu Gwledig;
- ardaloedd parthau menter;
- ymddiriedolaethau gweithredu tai;
- cynlluniau lleol, cynlluniau strwythur a chynlluniau datblygu unedol;
- polisïau ynni mewn cynlluniau datblygu; a
- symud ymaith bridd ar gyfer datblygu heb gydsyniad.

Ar wahân i gynllunio, mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â'r canlynol:

- ad-drefnu llywodraeth leol;
- datganiadau o anghenion addysgol arbennig;
- byrddau cynllunio Parciau Cenedlaethol;
- Awdurdod Datblygu Cymru;

- Bwrdd Datblygu Cymru Wledig;
- Awdurdod Tir Cymru;
- rhywogaethau estron goresgynnol;
- croesgyfeiriad diangen yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024;
- materion amrywiol yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006; a
- chyfeiriad diangen yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.

Mae hefyd yn diddymu dau ddarn o ddeddfwriaeth sylfaenol yn gyfan gwbl:

- Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011; a
- Deddf Etholiadau Cymru (Coronafeirws) 2021.

## Rhan 4 - Darpariaethau cyffredinol

Mae **adran 5** o'r Bil yn cyflwyno **Atodlen 2,** sy'n cynnwys mân ddiwygiadau i Ddeddf 2019, sy'n deillio'n bennaf o **adolygiad o'r Ddeddf**.

Er enghraifft, mae paragraffau 5 i 7 o Atodlen 2 yn dwyn "Mesurau gan Eglwys Loegr" o fewn ystyr "deddfiad" at ddibenion adrannau amrywiol o fewn Deddf 2019. Ni chaiff yr Eglwys yng Nghymru wneud deddfwriaeth o'r math hwn, ond weithiau mae Mesurau gan Eglwys Loegr yn berthnasol i rannau o Gymru, yn enwedig am fod 18 o blwyfi Eglwys Loegr y mae rhan ohonynt yng Nghymru.

**Beth yw Mesurau gan Eglwys Loegr?**

Deddfwriaeth yw Mesurau gan Eglwys Loegr (neu'n llawnach, Mesurau gan Gynulliad Eglwys Loegr neu Synod Cyffredinol Eglwys Loegr) sy'n ymwneud â gweinyddiaeth a threfniant Eglwys Loegr. Maent yn cael yr un effaith â Deddf gan Senedd y DU a chânt hefyd roi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.

Mae **adran 6** o'r Bil yn cyflwyno **Atodlen 3,** sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol.

Mae **adran 7** yn gwneud darpariaeth ynghylch pryd a sut y daw'r Bil i rym.

Mae **adran 8** yn nodi enw byr y Bil.